

## Rhaglen Grantiau Cyfleoedd Chwarae Digonol Wrecsam 2019 Telerau ac Amodau

### **DARLLENWCH YN OFALUS, MAE'N RHAID DILYN YR HOLL DELERAU AC AMODAU. GALL PEIDIO Â GWNEUD HYNNY OLYGU Y BYDD YR ARIAN YN CAEL EI DYNNU YN EI ÔL:**

- Mae angen dweud wrth Dîm Datblygu Chwarae CBSW os oes unrhyw newidiadau i'r cais hwn/ceisiadau hyn neu unrhyw newid i amgylchiadau sy'n effeithio ar y prosiect(au) y mae'r cais am grant yn cael ei wneud ar ei gyfer.
- Ni fydd y grant yn cael ei ddefnyddio at ddim arall ond at y pwrpas a nodwyd yn y cais, ynghyd ag unrhyw amodau a roddwyd gan Dîm Datblygu Chwarae CBSW.
- Gall unrhyw wybodaeth gamarweiniol neu anghywir, p'un a yw'n fwriadol neu ddim, olygu y bydd y cais yn annilys a bod rhaid talu'r grant yn ei ôl.
- Os yw cyllid yn cael ei ddyrannu i gyflwyno gwelliannau i fannau cyhoeddus, mae'n rhaid cael caniatâd ysgrifenedig gan berchennog y tir cyn dechrau unrhyw waith datblygu.
- Ar wahân i achosion pan fo ceisiadau wedi'u gwneud gan adrannau eraill yn yr awdurdod lleol, neu lle bydd gwelliannau materol yn cael eu gwneud ar dir sy'n eiddo i'r awdurdod lleol (ac mae'n rhaid cael caniatâd cyn gwneud hynny), nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gyfrifol mewn unrhyw ffordd am unrhyw bethau annisgwyl sy'n ymwneud ag eiddo neu weithgareddau y mae wedi darparu arian Grant Cyfleoedd Chwarae Digonol ar eu cyfer, yn llawn neu'n rhannol. Dylai cyfrifoldeb am unrhyw bethau annisgwyl o'r fath fod ar y sefydliad a dderbyniodd yr arian grant, a ddylai fod wedi'i warchod rhag pob posibilrwydd trwy lunio polisïau yswiriant digonol.
- Bydd unrhyw arian sydd heb ei wario'n cael ei ddychwelyd at Dîm Datblygu Chwarae CBSW.
- Ni fydd swm unrhyw grant yn cynyddu os yw'r prosiect yn gorwario.
- Bydd angen i bob ymgeisydd ddarparu tystiolaeth o wariant ar ffurf derbynebaw, anfonebau, cyfriflenni banc, ac ati.
- Bydd dyrannu cyllid yn cael ei gydnabod mewn unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd fel Prosiect Cyfleoedd Chwarae Digonol a weinyddwyd gan Dîm Datblygu Chwarae CBSW o gyllid Llywodraeth Cymru.
- Mae angen i'r ymgeisydd anfon adroddiad cryno ynglŷn â chwblhau'r prosiect (un ochr A4 ar y mwyaf), o fewn 4 wythnos i'w ddiwedd.
- Bydd angen tystiolaeth ffotograffig, tystiolaeth plant a'u rhieni/gofalwyr, a data ar y niferoedd a oedd yn rhan o'r prosiect gydag adroddiad cwblhau'r prosiect, felly dylai'r prosiectau ddechrau casglu'r rhain mor fuan â phosib'.
- Bydd caniatâd priodol wedi'i gaffael ar gyfer unrhyw ffotograffau sy'n dangos unigolyn y gellir ei adnabod.



- Sylwer hefyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cadw'r hawl i adennill y grant ar unrhyw bryd, yn llawn neu'n rhannol, os nad yw'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a gymeradwywyd neu os yw CBSW yn ystyried nad yw unrhyw un o'r telerau ac amodau'n cael eu bodloni.

**DATGANIAD:**

Rwyf i, \_\_\_\_\_, trwy hyn yn datgan yn ffurfiol fy mod i, ar ran \_\_\_\_\_, yn cytuno i gadw at y telerau a'r amodau sydd wedi'u nodi uchod ac yn derbyn y cynnig a roddwyd am grant.

Llofnod:	Dyddiad:



# MANYLION ARIANNOL

## Rhowch fanylion cyfrif banc eich sefydliad i ni:

Sicrhewch eich bod wedi darparu'r dystiolaeth ganlynol wrth ddychwelyd eich manylion ariannol:

- copi o gyfriflenni banc diweddar ar gyfer eich sefydliad.

Yr enw grŵp sydd ar y cyfrif

Enw'r banc/cymdeithas adeiladu

Cyfeiriad y banc/cymdeithas adeiladu

Cod didoli

--	--	--	--	--	--

Rhif Cyfrif

Rhif rhôl y gymdeithas adeiladu (os yw'n berthnasol)

**Pe bai cyllid yn cael ei ddyrannu i chi, gellir trafod anfon anfonebau i'w talu. Bydd angen trafod hyn gyda Thîm Datblygu Chwarae CBSW.**

**Rhowch enwau'r ddau lofnodydd banc a'u swyddi yn eich sefydliad neu'r sefydliad sy'n eich cefnogi.**

1. Enw

Swydd

2. Enw

Swydd